**Cofnodion cyfarfod Cyngor Tref Dinbych a gynhaliwyd nos Lun Mai 12fed 2014 yn Neuadd y Dref Dinbych am 7 o'r gloch.**

**Presennol:** Cynghorwyr Rob Parkes, Raymond Bartley, Margaret Bowe, Colin Hughes (cyrhaeddodd 7.09pm), Colin L Hughes, Roy Tickle, Mark Young, Brian Davies, Gaynor Wood a Medwyn Jones (Clerc y Dref).

**Ymddiheuriadau:** Cyng Gaynor Morgan Rees Philip Stevens, Shereen Lunt, Medwyn Williams, Colin Hughes (hwyr).

**Arsylwi:** Cynghorydd Sir Gwyneth Kensler

Croesawodd y cadeirydd bawb i gyfarfod cyntaf y flwyddyn fwrdeistrefol newydd.

**13.** **Materion Brys**: Nid oedd unrhyw fater brys.

**14.** **Datganiad Diddordeb Personol:** Derbyniwyd y datganiadau canlynol:

(1) Cyng Roy Tickle - eitem agenda 9(1) - Cymorthdaliadau - cais Gŵyl Ganol Haf Dinbych
(2) Cyng Roy Tickle – eitem agenda 9(1) – Cymorthdaliadau – cais Carnifal Dinbych
(3) Cyng Raymond Bartley - eitem agenda 9(1) - Cymorthdaliadau - cais Carnifal Dinbych
(4) Cyng Gaynor Wood - eitem agenda 9(1) - Cymorthdaliadau - cais Gŵyl Ganol Haf Dinbych

**15.** **Derbyniwyd Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar Ebrill 28ain 2014, a Chofnodion y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd ar Fai 2il 2014.**

**16.** **Materion yn codi:** Nid oedd unrhyw fater yn codi

**17.** **Adroddiad y Maer.** Derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig y Maer. Ymhelaethodd y Maer ar un neu ddau o'r materion oedd yn gynwysedig yn yr adroddiad

**18.** **Llythyrau a Hysbysiadau:** 1. Cytunwyd i nodi' pedwar eitem o ohebiaeth a dderbyniwyd.

**19.** **Cynllunio**: Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd peidio â gwrthwynebu'r ceisiadau canlynol am ganiatâd cynllunio:

(1) 1 Brynhyfryd Cottages, Ffordd y Rhyl
(2) Touring Caravan Park, Lleweni Parc, Ffordd yr Wyddgrug

2 Materion Cynllunio Eraill: (1) Nodwyd yr un dystysgrif yn caniatáu caniatâd cynllunio.
(2) Nodwyd y nodyn briffio a dderbyniwyd oddi wrth GSDd ynglŷn â safle cyn Ysbyty Gogledd Cymru.
(3) Nodwyd yr hysbyseb a dderbyniwyd oddi wrth adran cynllunio CSDd ynglŷn apwyntiad Arolygydd ar gyfer gwrandawiad anffurfiol ar apêl Mr Kevin Hook ynglŷn â Maes Awyr Lleweni Parc, Ffordd yr Wyddgrug.

**20.** **Cofnodion / adroddiadau is bwyllgorau'r cyngor** Cymorthdaliadau: Ystyriwyd cofnodion cyfarfod diweddar. Ystyriwyd a chymeradwywyd pob un cais oedd yn gynwysedig o fewn y cofnodion fel a ganlyn:

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| (1) | Gŵyl Ganol Haf Dinbych | - | £2,500 | (A.145)(rhif siec.005358) |
| (2) | Carnifal Dinbych | - | £3,000 | (A.145)(rhif siec.005359) |

**21.** **Adroddiadau**: (1) Masnach Deg. Ystyriwyd a derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig clerc y

dref. Cyfeiriodd clerc y dref at yr ail baragraff yr adroddiad a mynegodd ei bryder ynglŷn â diffyg cefnogaeth ymddangosiadol oddi fewn i'r cyngor a mannau eraill yn y dref. Aeth clerc y dref ymlaen i ofyn am benderfyniad oddi wrth y cyngor - os oedd y cyngor yn dymuno mynd ymlaen a statws Masnach Deg i Ddinbych. Cafwyd cryn drafodaeth ar y mater cyn cael **Penderfyniad** (7 o blaid a 2 yn ymatal eu pleidlais) **fod y cyngor tref yn mynd ar ôl statws Masnach Deg i Ddinbych.**

(2) Prosiect Coffau'r Rhyfel Byd Cyntaf. Ystyriwyd a derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig clerc y dref.

(3) Grŵp Diogelwch. Cafwyd adroddiad gan y Cyng Rob Parkes ar y cyfarfod blynyddol a gynhaliwyd yn ddiweddar. Ail etholwyd yr holl swyddogion ên bloc.

Nid oedd unrhyw adroddiadau eraill.

**22. Adroddiadau gan y Cynghorwyr Sir ar Faterion oedd yn Briodol i Ddinbych yn unig:**

1. Cafwyd adroddiad gan y Cyng Colin Hughes: (1) Cyfarfod Blynyddol CSDd Mai 13eg – diwedd tymor y Cyng Raymond Bartley fel cadeirydd yn dod i ben. (2) Cwblhad Hwb Dinbych ar ei hol hi - nawr yn anelu at agor diwedd Mehefin / dechrau Gorffennaf.

2. Cafwyd adroddiad gan y Cyng Raymond Bartley: (1) Y Maes, Parc Alafowlia – dryswch Ynglŷn â chytundeb A.106 ar gyfer yr ardal chwarae. Roedd y cyfan i'w glirio i fynnu. (2) Aelodau'r clwb bowlio yn anhapus gyda chyflwr y lawnt fowlio. Roedd y glaswellt wedi ei dorri'n is a'r aelodau yn ymddangos yn hapusach. £10,000 oedd cost cynnal a chadw'r lawnt mewn blwyddyn - roedd yn ymddangos yn annhebygol y byddai CSDd yn medru ariannu'r gost y flwyddyn nesaf. (3) Mynwent y Dref - Ansawdd torri'r glaswellt ddim yn dderbyniol - gobeithir y bydd modd datrys hyn.

Cynigwyd a derbyniwyd i ofyn i'r Cyng Gwyneth Kensler am adroddiad ar y Ward Ganol. (1) Gofynnodd y Cyng Kensler i'r Cyng Gaynor Wood roddi adroddiad ar y cyfarfod safle yn Edgar's Terrace - dywedodd y Cyng Wood fod iechyd a diogelwch yn edrych ar glirio'r malurion. Adran gyfreithiol CSDd yn edrych ar berchnogaeth y wal. Dywedodd y Cyng Kensler y canfuwyd perchennog y wal a bydd cysylltu â'r perchennog. (2) Prynwyd peiriant newydd i glirio gwm oddi ar balmentydd.

**23. Cyfrifon** 1. Penderfynwyd talu'r cyfrifon canlynol:

| | | | |
|---|---|---|---|
| (1) | Mrs Elaine Smith – ad-daliad costau deunydd Masnach Deg (rhif siec. 005360) | - | £15.00 |
| (2) | Sodexo – cynnal a chadw gardd Dr E P (Ebrill) (rhif siec. 005361) | - | £605.88 |
| (3) | Sandra Williams – gwasanaeth cyfieithu (14.4.14) (rhif siec. 005362) | - | £121.20 |
| (4) | Lock Stock – cyfleustra storfa (Mai) (rhif siec. 005363) | - | £72.00 |
| (5) | Delwedd - edrych ar ôl, cynnal a chadw a chefnogi Gwefan yr Archif Gymunedol - blynyddol (rhif siec. 005364) | - | £445.70 |
| (6) | Clerc y dref - ad-daliad costau lluniaeth gwlyb ar gyfer y cyfarfod blynyddol (rhif siec. 005365) | - | £59.67 |
| (7) | S & T Catering – Lluniaeth ar gyfer y cyfarfod blynyddol (rhif siec. 005366) | - | £480.00 |

(8) Pen y Bryn Joinery - ail osod cerrig llechi o amgylch y ffynnon yng Ngardd Dr E P - £412.80
(rhif siec 005367)

Cyfanswm Taliadau - £2,212.25

Gofynnodd clerc y dref am awdurdod i dalu lwfans, fel y cytunwyd, y Maer a'r Dirprwy Faer a hefyd yr honoraria i'r pedwar swyddog dinesig. Rhoddwyd yr awdurdod.

**2.** Nodwyd yr **Adroddiad Ariannol** ar gyfer y cyfnod 1.4.14 – 30.4.14

3. **Taliadau'r Aelodau**. Atgoffodd clerc y dref yr aelodau am y penderfyniad a wnaed gan y cyngor ar Chwefror 28ain 2014 yn mabwysiadu argymhellion y Panel Annibynnol Taliadau dros Gymru i aelodau dderbyn taliadau blynyddol o £100 tuag at gostau teleffon, TG, treuliau ac ati. Dosbarthwyd ffurflen gais i'r aelodau. Unrhyw geisiadau i'w gyrru i mewn yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol.

**4** **Unrhyw faterion ariannol eraill:** (1) Arwyddion triongl cŵn yn baeddu. Cyfeiriodd clerc y dref at yr ateb a dderbyniwyd oddi wrth GSDd. Mynegwyd pryder ynglŷn â'r gost oedd yn ymglymedig a gofynnwyd cwestiwn a fu proses tendro ar gyfer yr arwyddion. **Penderfynwyd** (yn unfrydol) **i wrthod y cynnig a dderbyniwyd.**

(2) Bathodynnau Cyn Faeres. Dywedodd clerc y dref fod y cyflenwad bellach yn ddim a bod angen ail archebu. Cyfeiriwyd at yr wybodaeth a dderbyniwyd oddi wrth Thomas Fattorini. **Penderfynwyd** (yn unfrydol) **i brynu pum bathodyn ar gost o £174.49 yr un & TAW.**

(3) Crysau polo'r cyngor. Cyfeiriodd clerc y dref at y penderfyniad a wnaed gan y cyngor i brynu crysau polo. Hyd yn hyn ymatebodd saith aelod gyda manylion maint a lliw. Derbyniwyd manylion oddi wrth aelodau eraill.

(4) Cyfeiriodd clerc y dref at yr amcan bris a dderbyniwyd ynglŷn â dyfrio'r basgedi crog yn ystod y tymor oedd ar ddod. Derbyniwyd yr amcan bris yn y swm o £2,000 & TAW.

(5) Cyfeiriodd clerc y dref at yr e-bost a dderbyniwyd odd wrth John Howatson ynglŷn â'r posibilrwydd o brynu'r mat bowlio dan do a'r cyfarpar oedd yn eiddo'r cyngor tref. Datganodd y Cyng Colin Hughes ddiddordeb. Eglurodd clerc y dref y prynwyd yr offer gan y cyngor yn 2009 i'w ddefnyddio gan y gymuned. Bu defnyddio'r offer yn neuadd y dref yn aflwyddiannus. Rhoddwyd yr offer ar fenthyg i Gapel y Fron a bu cynnal sesiynau bowlio yn y capel pob nos Iau. Yn dilyn trafodaeth fer, **Penderfynwyd rhoddi'r holl offer i Gapel y Fron i'w ddefnyddio ganddynt.** Cytunwyd ymhellach i ysgrifennu'r offer oddi ar lyfrau'r cyngor tref.

(6) Gofynnodd clerc y dref am awdurdod i dalu unrhyw daliadau a dderbynnir yn ystod y cyfnod rhwng y cyfarfod yma a chyfarfod y cyngor ar Fehefin 9fed 2014. Rhoddwyd yr awdurdod ar sail fod adroddiad yn cael ei baratoi ar gyfer y cyfarfod nesaf.

**24.** **Carnifal Dinbych.** Cyfeiriodd clerc y dref at benderfyniad cynharach y cyngor i gael presenoldeb ar faes y carnifal. Cyfeiriwyd y mater at is bwyllgor prosiectau'r cyngor. Aflwyddiannus bu'r ymgais i gynnal cyfarfod ac felly daethpwyd a'r mater yn ôl i'r cyngor. Ail gadarnhawyd y dylai'r cyngor gael presenoldeb ar y maes a gosodwyd y dasg o drefnu'r presenoldeb yn nwylo'r Cyng Roy Tickle, Gaynor Wood, Medwyn Williams, Rob Parkes a Colin L Hughes.

**25.** **Hyfforddiant i Gadeiryddion.** Cyfeiriodd clerc y dref at yr ateb a dderbyniwyd oddi wrth GSDd. Cytunwyd i'r Cyng Margaret Bowe a Mark Young fynychu ar gost o £35 yr un.

**26. Amgueddfa Dinbych.** Datganodd y Cyng Margaret Bowe ddiddordeb. Cyfeiriodd clerc y dref at nifer o faterion a chytunwyd fel a ganlyn:

(1) Symud y cyfleusterau storfa o'r safle presennol i'r stordy yn yr amgueddfa i gymryd lle dydd Iau Mai 15fed – y Cyng Medwyn Williams, Roy Tickle, Shereen Lunt, Gaynor Wood a Colin L Hughes i gynorthwyo'r symud. Clerc y dref i wneud y trefniadau angenrheidiol.
(2) I'r amgueddfa fenthyca'r offer arddangos metal oedd yn perthyn i'r cyngor tref i'w defnyddio gan yr amgueddfa.
(3) Noson Agored yn yr amgueddfa - nos Sadwrn Mai 17eg 2014 - 4 o'r gloch tan 9 o'r gloch. Datganodd y Cyng Colin Hughes ddiddordeb. Clerc y dref i drefnu eitemau i'w harddangos. Yng nghyfarfod y cyngor ar Ebrill 14eg gwirfoddolodd y Cyng Rob Parkes, Raymond Bartley, Margaret Bowe, Mark Young, Roy Tickle a Gaynor Wood.
(4) Cadarnhaodd y Cyng Gwyneth Kensler y cynhelir Cyfarfod Blynyddol yr Amgueddfa nos Iau Mehefin 12fed yn yr Amgueddfa am 7 o'r gloch.

**27. Apwyntiad aelodau i is bwyllgorau a grwpiau gweithio'r cyngor.**

**28. Dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd cyntaf yr is bwyllgorau / grwpiau gweithio:**

**29. Apwyntiad aelodau ar wahanol gymdeithasau ac ati.**

Cymerwyd eitemau 27 - 29 uchod gyda'i gilydd. Cytunwyd am mai ond ychydig o aelodau oedd yn bresennol i ohirio penderfyniad ar y tri tan y cyfarfod nesaf ar Fehefin 9fed ac i'r cyfarfod hynny ddechrau am 6.30 o'r gloch.

Am nad oedd mwy i'w drafod, terfynwyd y cyfarfod am 8.18 o'r gloch.

Arwyddwyd:........................................................ (cadeirydd)

Dyddiad:.........................